# CYNGOR GWYNEDD

### ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL CHWILOG

### YSGOL CHWILOG, CHWILOG, GWYNEDD LL53 6PS

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig ehangu’r safle gan gynyddu capasiti Ysgol Chwilog, Chwilog, Gwynedd LL53 6PS, o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2023.** Yr Awdurdod Lleol fydd yn gweithredu’r cynnig.

Yr awdurdod mynediad ar gyfer yr ysgol 3-11 fydd Cyngor Gwynedd. Bydd disgyblion yn cael eu derbyn i Ysgol Chwilog gan Gyngor Gwynedd yn unol â’i Bolisi Mynediad. Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn darparu ar gyfer dethol yn ôl gallu na medr (bandio disgyblion).

Nifer y disgyblion yn yr ysgol oedd 84 yn Medi 2022 gan gynnwys disgyblion meithrin. Capasiti presennol disgyblion yr ysgol (wedi ei gyfrifo yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 ‘Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru’) yw 65. Ar ôl gweithredu’r cynnig bydd darpariaeth i 95 o ddisgyblion Derbyn i Blwyddyn 6 a 13 lle meithrin llawn amser. Y nifer derbyn o 1 Medi 2023 bydd 13 disgybl Derbyn i Blwyddyn 6 gyda 13 o leoedd meithrin llawn amser.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **8 Mawrth 2023.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Llofnodwyd:



Garem Jackson
**Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd**

Dyddiad cyhoeddi: **8 Chwefror 2023**

**NODYN ESBONIAD**

(Nid yw’r isod yn rhan o’r rhybudd ond mae’n cynnig esboniad o’i bwrpas)
Yn dilyn proses ymgynghori mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Chwilog I 95 o 1 Medi 2023.